# Datganiad Grant Datblygu Disgyblion

**(25-26)**

Dyrennir y Grant Datblygu Disgyblion i ysgolion â disgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac y gwyddys eu bod ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (e-FSM) a disgyblion sydd wedi derbyn gofal yn barhaus am fwy na chwe mis (LAC).

Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu sy'n LAC.

Trosowlg Ysgol

| Manylion | Data |
|---|---|
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 179 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | 13.4% |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | 01.04.25 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | 09.01.26 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Sir Gaerfyrddin |
| Yn arwain ar y GDD | Mrs Nia Hallam (Pennaeth) |
| Llywodraethwr sy'n arwain | Mr Richard Brodrick (Cadeirydd) |

Trosolwg cyllid

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon (25-26) | |
| **GDD**<br>**Grant Datblygu Disgyblion 'Llyfnhau'** | £37,950.00<br>£6,622.00 |
| **EYPDG** | £8,050.00 |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | £ 52,622.00 |

Fel ysgol rydym wedi cytuno ar y tri cham a ganlyn:

- nodi'r grŵp targed o ddisgyblion, ei nodweddion a'i anghenion
- cynllunio ymyraethau sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau
- monitro a gwerthuso effaith adnoddau

Yn Ysgol Parcyrhun mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- wella dysgu ac addysgu drwy ddarparu rhaglen gefnogi- sy'n cynnwys cynorthwywyr dysgu ag arbenigedd yn y meysydd isod i arwain grwpiau ffocws ac ymyrraeth.
- darparu rhaglenni ymyrraeth a chymorth y profwyd eu bod yn cael yr effaith fwyaf a'u bod yn gynaliadwy fel Chwarae Cadarnhaol, CHATT, Dyfal Donc Darllen, Hwb Ymlaen Mathemateg, Mathemateg Mwy Abl a Thalentog, RWI/ Tric a Chlic, Iaith a Lleferydd
- darparu hyfforddiant penodol o safon uchel i staff ysgolion, yn cynnwys ar yr uchod a strategaethau ychwanegol
- cyflwyno a defnyddio systemau olrhain data i nodi anghenion dysgwyr, targedu ymyraethau a monitro effaith.
- gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion eraill, y gymuned a sefydliadau eraill sy'n cynnwys arbenigwyr a chymorth meddygol
- wella presenoldeb y grŵp targed drwy ddefnyddio systemau monitor ac ymyraethau.
- datblygu capasiti arweinyddiaeth i flaenoriaethu'r effaith ar ansawdd y ddarpariaeth a'r  canlyniadau i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd.

Mae ein cynllun manwl sy'n cynnwys manylion mewn perthynas â sut rydym yn gwario'r grant ar gael gan y Pennaeth.